Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Cefnfaes Bethesda
**Canolfan Cefnfaes**
**Bethesda**
**Gwynedd**
**LL57 3AG**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11.02.2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Cefnfaes wedi ei leoli yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda, Gwynedd.  Mae `r Cylch wedi`i hir sefydlu hyd ac yn derbyn plant o'r dref a'r pentrefi cyfagos a chymunedau gwledig. Mae `r Cylch yn defnyddio tair ystafell yn y Ganolfan. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn gynnes ac mewn cyflwr addurnol da. Mae wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC ) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 20 o blant , ac mae`n cael ei weinyddu gan bwyllgor gwirfoddol ar ran y Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae hon yn gymuned Gymreig ac mae mwyafrif sylweddol o'r plant yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith.  Mae`r Cylch yn adrodd nad yw`r ardal yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd .

Mae `r Cylch yn derbyn plant yn dilyn eu penblwydd yn ddwy oed ac yn aros yn y Cylch tan y mis Medi sy`n dilyn eu trydydd pen-blwydd pan fyddant yn symud i un o'r nifer o ysgolion cynradd lleol . Mae hwn yn leoliad cyfrwng Cymraeg ac mae pob plentyn yn parhau â`u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cylch ar agor am bum bore'r wythnos yn ystod y tymor rhwng 9.15 y bore a 12.15 y prynhawn.  Ar hyn o bryd mae 31 o blant ar y gofrestr gyda 10 ohonynt yn dair oed ac yn cael eu hariannu.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn derbyn cymorth a ariennir gan Gynllun Cyfeirio Gwynedd. Nid oes unrhyw blant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r staff yn cynnwys 4 o ymarferwyr sydd â chymwysterau da ac sy`n brofiadol. Mae pob un ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'r arweinydd yn gyfrifol am y lleoliad ers tair blynedd bellach ac wedi cymryd ei rôl ar ôl yr arolygiad diwethaf.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2008 ac mae argymhellion yr adroddiad hwnnw wedi cael sylw. Roedd yr arolygiad diwethaf gan AGGCC yn 2011 ac mae`r materion mân wedi cael sylw.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y Cylch yn dda oherwydd:

- y gofal, cefnogaeth ac arweiniad caiff y plant;
- y cyfleoedd dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant, yn enwedig i ddatblygu iaith;
- yr amgylchedd dysgu ysgogol sy`n cael ei ddarparu ar gyfer y plant;
- ymddygiad y plant a`u hagwedd at ddysgu;
- gwaith tîm effeithiol y staff sy`n canolbwyntio ar anghenion y plant;
- ansawdd yr arweinyddiaeth;
- y pwyllgor rheoli gweithredol a chefnogol.

### Rhagolygon gwella

Rhagolygon gwella

Mae`r rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- medrau rheoli`r arweinydd;
- mae`r arweinydd a`r staff yn agored i syniadau newydd;
- y gefnogaeth gan athrawes gefnogi`r awdurdod lleol wrth weithredu newid;
- ymrwymiad y staff i ddarparu`r ddarpariaeth orau ar gyfer y plant.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 ddatblygu a mireinio gweithdrefnau asesu;

A2 cynllunio gwaith sy`n gweddu`n dda i anghenion y plant a fydd yn eu herio;

A3 mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad;

A4 parhau i ddarparu profiadau dysgu awyr agored cymaint ag y bo modd ar gyfer y plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau da. Mae`r plant yn ymgymryd ag ystod eang o dasgau sy'n cryfhau ac yn datblygu eu dysgu. Mae gan blant atgof da o'u dysgu blaenorol ac yn datblygu eu sgiliau meddwl a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd newydd.

Mae'r holl blant wedi datblygu sgiliau cyfathrebu yn dda sy'n eu galluogi i fynegi eu hunain yn gryno. Maent yn gwrando'n astud ar staff ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn fodlon. Mewn sgwrs gydag oedolion maen nhw`n defnyddio iaith ac yn sgwrsio`n briodol â'i gilydd mewn chwarae digymell. Mae patrymau iaith da yn cael eu sefydlu. Mae`r plant yn mwynhau amser stori ac yn dangos diddordeb mewn llyfrau. Maen nhw`n dilyn storïau ac yn ymateb yn frwdfrydig. Mae`r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn caneuon actol .

Mae`r rhan fwyaf o blant yn arbrofi drwy greu marciau gyda sialc neu wrth wneud siapiau mewn ewyn. Maent yn deall pwrpas ysgrifennu fel gwneud rhestrau yn eu caffi.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau mathemategol da ac yn defnyddio iaith fathemategol yn briodol. Mae ganddynt sgiliau cyfrif da, gan gyfrif yn gywir i 10 ar y cyfan. Gall y plant mwy galluog ymgymryd â phroblemau tynnu allan syml heb oedi. Mewn achosion o'r fath, mae sgiliau datrys problemau yn cael eu datblygu'n dda . Fodd bynnag, mae agweddau ar fathemateg, gan gynnwys e.e. datrys problemau ac adnabod patrymau heb ddatblygu digon. Mae`r plant yn gyfarwydd â thechnoleg ddigidol sylfaenol megis ffonau symudol a chwaraewyr CD ond mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dechnoleg cyfathrebu yn gyfyngedig.

Mae'r holl blant yn mwynhau gwaith creadigol ac yn defnyddio ystod dda o ddeunyddiau. Mae`r plant yn canu mewn tiwn ac mae'r rhan fwyaf o blant yn cydsymud yn dda sy`n amlwg wrth iddynt gymryd rhan yn weithredol yn ystod gweithgareddau corfforol.

Mae hwn yn leoliad cyfrwng Cymraeg ac mae'r rhan fwyaf o blant yn siaradwyr Cymraeg rhugl sy`n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae`r lleiafrif o siaradwyr di-Gymraeg yn gwneud cynnydd da ac mae cofnodion yn dangos y byddant yn gallu dilyn y cam nesaf yn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Drwyddi draw, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dyfalbarhau yn dda gyda'r tasgau a osodir ar eu cyfer ac yn ystod gweithgareddau dewis rhydd. Mae canlyniadau'r holiadur rhieni a thrafodaeth gyda rhieni yn dangos lefel uchel o foddhad â'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn awyddus i gymryd rhan mewn dysgu ac i gymryd rhan weithredol yn yr holl weithgareddau a osodir ar eu cyfer. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos eu brwdfrydedd wrth gyrraedd ac mae eu synnwyr o fwynhad yn amlwg. Mae'r holl blant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau da, gan ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau`r staff. Mae ymddygiad da yn cael ei wobrwyo. Mae`r plant yn dysgu i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb.

Mae'r holl blant yn ymwneud yn dda â'i gilydd ac yn ystyriol. Maen nhw`n cydweithio'n dda yn ystod chwarae rhydd ac yn cynnal eu gallu i ganolbwyntio ar dasg am gyfnodau sylweddol o amser. Mae'r berthynas rhwng plant a staff yn dda iawn ac mae syniadau a barn y plant yn cael eu nodi wrth gynllunio'r gwaith a`r gweithgareddau. Nodwedd nodedig yw lefelau uchel y plant o hunan-barch a hyder sy`n eu galluogi i siarad yn hyderus ag arolygydd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd ac mae`r profiadau dysgu yn ennyn diddordeb yr holl blant yn llwyddiannus. Mae barn y plant yn cael eu cynnwys ac mae'r cynllunio yn ddigon hyblyg i ymateb i syniadau`r plant. Yn gyffredinol, mae'r profiadau dysgu wedi'u ffocysu'n dda ar annog plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae`r staff yn ymwybodol iawn o wybodaeth a dealltwriaeth blaenorol y plant ac mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol y plant .

Mae`r cyfleoedd dysgu yn cynnwys cyfleoedd da i blant arbrofi ac archwilio eu hamgylchedd yn hyderus, fel yn ystod ymweliad â'r parc lleol. Roedd y plant wedi defnyddio chwyddwydr i arsylwi ar y bwystfilod bach, gan gynnwys arsylwi symudiad malwod. Mae hyn yn herio syniadau`r plant yn briodol.

Roedd cyfleoedd da wedi`u cynllunio i blant ddod yn ddysgwyr annibynnol fel casglu ffrwythau a hadau a gwahanol ddail yn yr hydref. Mae hyn yn annog eu medrau meddwl a gwell dealltwriaeth o'r byd maen nhw`n byw ynddo. Mae`r plant hefyd yn gwerthfawrogi bod angen trin pethau byw gyda gofal.

Yn gyffredinol, mae'r cynllunio i ddarparu ar gyfer datblygu sgiliau rhifedd plant a gwybodaeth o dechnoleg ddigidol heb ddatblygu digon. Mae`r cynllunio yn darparu`n dda ar gyfer datblygu hunaniaeth ddiwylliannol y plant trwy ddathlu gwyliau Cymreig fel Dydd Gŵyl Dewi a chymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn y cymunedol lleol. Mae'r astudiaeth o ddiwylliannau eraill yn ymestyn eu profiadau.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl staff gymwysterau a phrofiad da ac mae ganddynt wybodaeth drylwyr o ddatblygiad plant a dealltwriaeth o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae`r staff yn deall gwahanol anghenion y plant sy`n seiliedig ar eu gallu a'u profiadau blaenorol. Mae`r staff yn rhannu`r nod cyffredin o gael disgwyliadau uchel o bob plentyn a bod gan bawb anghenion penodol.

Mae cydbwysedd da rhwng chwarae rhydd sy`n cael ei ddewis gan y plentyn a gweithgareddau sy`n cael eu cyfeirio gan oedolion. Mae anghenion y plant yn cael eu bodloni`n hyblyg. Mae`r plant yn cael eu rheoli'n dda ac mae`r staff eu hunain yn fodelau rôl da, yn ogystal â bod yn fodelau iaith da. Mae cwestiynu yn cael ei ddefnyddio`n dda i herio`r plant ac mae gan staff ddealltwriaeth dda o bryd i ymyrryd yn y gweithgareddau. Mae amser yr ymarferwyr ychwanegol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn effeithio`n dda ar y dysgu, gan gynnwys datblygiad personol a chymdeithasol y plant. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar adnabod galluoedd unigol plant a pharatoi tasgau sy`n gweddi`n dda i'w hanghenion a chyfnod eu datblygiad.

Mae'r staff yn adnabod eu plant yn dda ac yn sensitif i'w hanghenion. Mae cynnydd plant yn cael ei dracio ar draws pob maes dysgu ond mae hyn wedi cymryd llawer o amser ac mae`r defnydd ohono wedi bod yn gyfyngedig yn y gorffennol. Mae'r gweithdrefnau asesu sydd wedi eu cyflwyno yn ddiweddar yn canolbwyntio'n llawer gwell ar yr hyn mae plant unigol wedi cyflawni ac ar y camau nesaf yn eu dysgu. Mae rhieni'n adrodd eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am yr hyn mae eu plant yn dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:Da**

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i gefnogi iechyd a lles plant. Yn gyffredinol mae`r trefniadau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at les y plant ac yn cefnogi eu datblygiad yn effeithiol, yn academaidd ac yn bersonol .

Nodwedd nodedig y lleoliad yw`r berthynas hapus a diogel y mae'r plant yn ei mwynhau. Maen nhw`n hunan - hyderus ac yn gwybod pryd i ofyn am help neu gefnogaeth. Mae'r berthynas rhwng plant a rhwng plant ac oedolion yn dda .

Mae'r lleoliad yn nodi anghenion dysgu plant ac mae gweithdrefnau da ar waith i ddiwallu eu hanghenion. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi'n dda ac mae'r lleoliad yn gweithio ar y cyd gydag asiantaethau allweddol eraill fel Cynllun Cyfeirio Gwynedd .

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r plant yn gwybod pa mor bwysig yw ailgylchu, fel wrth ddefnyddio deunydd gwastraff yn eu gweithgareddau. Mae'r lleoliad yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau diwylliannol yn yr ardal.

Mae`r trefniadau diogelu wedi'u sefydlu'n dda. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar ac mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel. Mae`r drysau wedi`u cloi bob amser sy`n sicrhau nad oes unrhyw un yn dod i mewn neu adael heb rybudd.

Mae'r trefniadau`r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn achos o bryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae`r holl blant yn cael hawl gyfartal i`r holl feysydd dysgu. Mae`r plant yn cael eu parchu fel unigolion ac mae eu nodweddion unigol yn cael eu cydnabod a'u parchu. Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael gydag unigolion profiadol sydd â chymwysterau da. Mae'r lleoliad yn amgylchedd dysgu ysgogol gyda chyflenwad o adnoddau ar y cyfan sy`n gweddu'n dda i anghenion dysgu'r plant. Yr un eithriad yw offer TG.

Mae`r adnoddau yn cael eu storio`n gyfleus ac yn hygyrch. Nid oes gan y lleoliad ardal y tu allan sy`n addas i`r plant i`w defnyddio. Fel arall, mae`r adeiladau yn addas ac yn cael eu defnyddio'n dda. Fodd bynnag, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r gymuned leol, gan gynnwys y llyfrgell a'r parc lleol.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn ddiogel, ni all unrhyw un ddod i mewn neu adael heb rybudd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn elwa o synnwyr o bwrpas sy'n cael ei ddarparu gan yr arweinydd ac mae hyn yn hyrwyddo ac yn cynnal gwelliant. Mae disgwyliadau yn uchel ac mae gweithrediad y polisïau a`r mentrau yn effeithiol. Mae`r staff yn gweithio'n dda fel tîm ac yn ategu ei gilydd ac mae hyn yn sicrhau bod y lleoliad yn canolbwyntio `n dda ar ddarparu'r cyfleoedd dysgu gorau posibl i'r plant.

Mae`r berthynas yn dda iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr ymdeimlad o gymuned sy`n amlwg yn y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli yn effeithiol iawn ac mae ganddo ffocws parhaus ar gyflawni cynnydd sy`n seiliedig ar wella'r ddarpariaeth lle bo hynny'n bosibl. Ar hyn o bryd mae'r canlyniadau yn dda.

Mae`r polisïau a`r mentrau, gan gynnwys y rhai a sefydlwyd yn lleol, yn cael eu gweithredu'n gyson.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r Pwyllgor Rheoli a'r staff yn adnabod eu lleoliad yn dda; mae`r meysydd i'w datblygu`n cael eu cydnabod ac mae`r gweithredu sydd wedi digwydd wedi golygu newidiadau sy`n sicrhau arfer dda. Mae'r staff yn agored i syniadau newydd ac yn barod i dderbyn newid. Maen nhw`n gwneud defnydd da o gyrsiau hyfforddiant a rhannu arbenigedd.

Mae'r lleoliad yn dangos sut mae gwelliannau wedi digwydd i'r ddarpariaeth gyda'r gwelliannau yn safonau cyflawniad a lles y plant. Mae`r gweithdrefnau hunanarfarnu cyfredol wedi eu sefydlu ac yn dangos yn glir y meini prawf asesu a gwelliannau sy`n cael eu cynnig. Mae hyn yn darparu sylfaen dda ar gyfer gwella yn y dyfodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae`r trefniadau partneriaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol at gynnydd a chyflawniadau da`r plant a`u lles. Mae'r staff yn cymryd camau gweithredol i sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl rieni ac mae`r holiadur cyn-arolygiad yn dangos bod cefnogaeth a boddhad yr holl rieni yn gryf. Mae rhieni yn cael mynediad rheolaidd i'r staff wrth ddod â`u plant neu eu casglu ac mae`r staff bob amser ar gael i gwrdd â nhw. Mae rhieni hefyd yn cymryd rhan fel aelodau o'r pwyllgor rheoli ac mae digwyddiadau misol yn cael eu cefnogi'n dda.

Mae cysylltiadau da yn bodoli gyda'r nifer o ysgolion cynradd mae`r plant yn symud iddynt. Mae`r holl blant yn ymweld â'r ysgol sy'n eu derbyn tua diwedd tymor yr haf.

Mae'r lleoliad yn werthfawrogol iawn o'r gefnogaeth gref sy`n cael ei darparu gan athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a Mudiad Meithrin.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â'r gymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r staff yn cael eu cefnogi gan ddatblygiad proffesiynol rheolaidd a gwneir defnydd da o'r hyfforddiant. Mae'r gweithdrefnau asesu a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cael eu cynllunio`n dda i wella`r profiadau dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.

Mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu broffesiynol, sefydledig lle mae staff yn rhannu eu harbenigedd ac yn cefnogi ei gilydd. Yn y modd hwn maen nhw`n rhannu eu gwybodaeth broffesiynol. Mae hyn yn effeithio`n dda ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar gynnydd a chyflawniadau`r plant.

Mae`r adnoddau, gan gynnwys eu hygyrchedd a`r ardaloedd gwaith bellach yn cael eu trefnu'n effeithiol. Maen nhw wedi`u cynllunio'n dda i gefnogi`r dysgu.
Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'ngryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'ngryf | Don't know Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 16 | 15 94% | 1 6% | 0 0% | 0 0% | 0 | Rwy'nfodlonâ'rlleoliadyngyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 16 | 15 94% | 1 6% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae fymhlentynynhoffi'rlleoliadhwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 16 | 16 100% | 0 0% | 0 0% | 0 0% | 0 | Cafoddfymhlentyngymorthiymgartrefu'ndda pan ddechreuoddyn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 16 | 16 100% | 0 0% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae fymhlentynyngwneudcynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 16 | 15 94% | 1 6% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae plant ynymddwynynddayn y lleoliad. |
| | | 69% | 26% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 16 | 15 94% | 1 6% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae'raddysguyndda. |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 16 | 16 100% | 0 0% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae'r staff yntrinpobplentynyndeg a gydapharch. |
| | | 82% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 15 94% | 1 6% | 0 0% | 0 0% | 0 | Caifffymhlentyneiannogifod yniach ac iwneudymarfercorffynrheolaidd. |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 16 | 16 100% | 0 0% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae fymhlentynynddiogelyn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 14 | 11 79% | 2 14% | 0 0% | 0 0% | 1 | Mae fymhlentynyncaelcymorthychwanegolpriodolmewnperthynasagunrhywanghenionunigolpenodol. |
| | | 64% | 25% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 11 73% | 3 20% | 1 7% | 0 0% | 0 | Rwy'ncaelgwybodaethgyson am gynnyddfymhlentyn. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'ngryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'ngryf | Don't know<br>Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'nteimlo'ngysurusynglŷn â gofyncwestiwni'rlleoliad, gwneudawgrymiadauneunodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 16 | 15<br>94% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'ndealltrefn y lleoliadargyferdelio â chwynion. |
| | | 62% | 30% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 16 | 13<br>81% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fymhlentynwedi'ibaratoi'nddaargyfersymudymlaeni'rysgol. |
| | | 71% | 23% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 11<br>69% | 4<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaethdda o weithgareddau, gangynnwysteithiauneuymweliadau. |
| | | 62% | 31% | 4% | 0% | | |
| The setting is well run. | 16 | 14<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'rlleoliadyncaeleiredegyndda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |